Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Newidiadau arfaethedig i dair Ardal Gwarchodaeth Arbennig yng Nghymru ar gyfer Adar




Ffeithiau allweddol ynghylch y newidiadau arfaethedig

# Newidiadau arfaethedig i dair Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yng Nghymru ar gyfer Adar:

**Ardal Gwarchodaeth Arbennig Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli /Aberdaron Coast and Bardsey Island,**
**Ardal Gwarchodaeth Arbennig Skokholm and Skomer ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig Grassholm**

## Ffeithiau allweddol ynghylch y newidiadau arfaethedig

- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yw ardaloedd o dir, dŵr neu fôr sydd wedi'u nodi'n rhai o bwysigrwydd rhyngwladol lle mae rhywogaethau prin, bregus neu ymfudol o adar yn nythu, bwydo, gaeafu neu fudo. Mae Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn safleoedd dynodedig Ewropeaidd ac yn dod o dan y Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Adar Gwyllt.

- Cyfoeth Naturiol Cymru yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd. Rydyn ni'n ceisio sicrhau fod Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn cael eu gwarchod a'u rheoli er mwyn cadwraeth eu poblogaethau o adar.

- Ar ôl derbyn cyngor gwyddonol, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig:
  - ymestyn ffiniau tair o'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig: AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island, AGA Skokholm and Skomer ac AGA Grassholm; ac
  - addasu'r rhestrau o rywogaethau adar ar gyfer AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli /Aberdaron Coast and Bardsey Island, ac AGA Skokholm and Skomer.

- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau yw ymestyn ffiniau'r safleoedd presennol rhwng 2km a 9km, yn dibynnu ar y safle. Diben hynny yw cynnwys yr ardaloedd o gwmpas y mannau nythu, ble mae adar y môr yn gorffwys neu'n ymgynnull yn ystod y tymor bridio.

- Nid yw'r cynigion hyn yn gysylltiedig â'r Parthau Cadwraeth Morol.  Mae Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn ddynodiadau gwahanol i'r Parthau Cadwraeth Morol, gydag amcanion gwahanol ac yn dod o dan ddeddfwriaeth wahanol.

- Mae gweithgareddau na fydd yn amharu ar y poblogaethau o adar yn yr Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn debyg o barhau fel ag y maen nhw ar hyn o bryd, felly byddwch yn dal i allu cerdded ar y traeth, hedfan barcud, plymio sgwba ac yn y blaen.  Does dim arwydd fod y math o bysgota neu hwylio masnachol neu hamdden a geir ar hyn o bryd yn fygythiad i'r poblogaethau o adar, felly ni fydd y cynigion yn ei gwneud yn debycach y ceir rheoliadau neu gyfyngiadau newydd. Yn wir, fe wyddom ei bod yn debyg bod rhai gweithgareddau wedi cyfrannu at lwyddiant yr adar, e.e. rhai dulliau o ffermio ar Benrhyn Llŷn sydd wedi creu'r amodau priodol ar gyfer y frân goesgoch.

- Nid yw presenoldeb Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig o angenrheidrwydd yn gwahardd datblygu a newid – ond mae yna broses i'w dilyn ar gyfer unrhyw weithgaredd sy'n cael ei reoleiddio er mwyn ystyried sut fydd y cynigion yn effeithio ar AGA.

- Os bydd cynnig i ddatblygu neu newid yn debyg o amharu'n arwyddocaol ar y poblogaethau o adar yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig neu ar eu cynefin, yna mae'n rhaid cynnal asesiad.  Fel arfer mae'n bosibl rhoi caniatâd os na fydd bywyd gwyllt yn cael ei niweidio,

neu os yw'n bosibl osgoi difrod trwy newid y cynlluniau gwreiddiol.

- Mewn amgylchiadau eithriadol gall Llywodraeth Cymru ganiatáu datblygu os oes yna resymau o'r pwys mwyaf a chymaint o fantais i'r budd cyhoeddus fel nad oes yna ddewis arall boddhaol.

- Mae Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn rhai o'n safleoedd pwysicaf ar gyfer bioamrywiaeth ac mae'r tri safle hwn yn cynnwys rhai o dirweddau, morweddau ac ynysoedd harddaf a mwyaf gwerthfawr Cymru, sy'n denu llawer o filoedd o ymwelwyr pob blwyddyn ac sy'n gwella ansawdd bywyd i'r bobl sy'n byw yno neu gyfagos. Mae'r cynigion wedi eu paratoi i sicrhau fod y seiliau cyfreithiol i warchod yr ardaloedd hyn er budd y genhedlaeth bresennol a'r cenedlaethau i ddod, yn glir, yn gadarn ac yn gyfoes ac yn adlewyrchu'u pwysigrwydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.


©Clive Hurford